

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Dewi Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**Mai 5ed 2014**

**Presennol:** Dewi Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans (Cynghorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol)

1286 Croesawodd y Cadeirydd bawb a diolchodd i'r cyn-gadeirydd, Huw Antur, am ei arweiniad doeth ar hyd y flwyddyn.

1287 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1288 Ni dderbyniwyd datganiadau buddiant.

1289 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 1af 2014.

1290 Materion yn codi o'r Cofnodion: bydd lolo Tegid yn cyflwyno dymuniad y Cyngor i'r ffordd fawr fod ar agor erbyn 11.00 ar ddiwrnod y Ras a gynhelir ym Medi.

1291 Adroddiad y Cynghorydd Sir: bydd casgliadau'r bin gwyrdd yn newid i bob 3 wythnos yn y gwanwyn. Bydd darpariaeth arbennig ar gyfer teuluoedd o 6 neu fwy, teuluoedd lle mae baban, ac ar gyfer yr anabl a'r henoed lle bo angen. Bydd deunydd ailgylchu yn cael eu casglu fel ar hyn o bryd ond bydd bocsys ail-gylchu newydd ar gert ar gael i'w gwneud yn haws i ddosbarthu'r deunydd ailgylchu. Bydd hyn yn arwain at leihad mewn tirlenwi; hefyd, gobeithir osgoi derbyn dirwy gan Lywodraeth Cymru. Daw mwy o wybodaeth eto. Cytunodd Alan Jones Evans godi mater y trefniant ar gyfer pwyntiau casglu cymunedol.

#### **1292 Materion Eiddo'r Cyngor:**

- i. Toiledau – cytunwyd i osod adroddiad ar eu cyflwr ar agenda'r cyfarfod nesaf ar ôl i'r Cynghorwyr wneud asesiad. Clywyd fod y dogfennau perchnogaeth wedi dod i law Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf.
- ii. Y Fynwent - cytunwyd i archwilio carreg sydd wedi disgyn yn y fynwent. Nodwyd fod agoriad cut y fynwent gan Huw Antur.
- iii. Llochesi bws – mae gwaith addurno lloches Tŷ'n Ddôl mewn llaw.
- iv. Cytunodd nifer o'r Cynghorwyr i wneud gwaith twtio ar y Gilfach Goffa am 6.30pm nos Fawrth 13/5/14. **Trefnu: Arwel Lloyd Jones**

#### **1293 Materion ariannol**

- i. Derbyniwyd Cofnod o gyfarfod Is bwyllgor Cyllid 17/4/14. Cytunwyd i ysgrifennu at Hywel Evans i ddiolch iddo am ofalu am drefniadau'r fynwent tan Ebrill 2014. Cytunwyd i gydnabod gwaith y Swyddog Ariannol am y gwaith y cyflawnodd yn gwneud trefniadau ar hyd y flwyddyn ddiwethaf (£210). **Gweithredu: Clerc**

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Dewi Jones

---

ii. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol, gan gynnwys derbyniadau:

- 1) taliad cyntaf y Praesept £4400
- 2) rhent cwt yr hers £195 (Hydref i ddiwedd Mawrth 2014)

iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:

- 1) R A Jones – ffenestri'r toiledau £1180.80
  - 2) Ad-dalu'r Clerc am y Bocs arddangos taflenni - £26.38
  - 3) Ysgol OME - Defnyddiau croesawu - £67.87
  - 4) Ysgol O ME – Llungopio llythyron Cystadleuaeth Addurno Tai – £13
  - 5) Neuadd Bentref am ddefnyddio'r gegin yn ystod y Noson Goffi - £38
  - 6) Nwy Prydain - £7.75
  - 7) Yswiriant 2014-15 (ymrwymwyd am 3 mlynedd) - £574.86
  - 8) Cytunwyd i dalu am y bunting.
  - 9) Nid oedd angen ad-daliad costau
- iv. Cytunwyd i agor Cyfrif Cadw (argymhelliad Llywodraeth Cymru)
- v. Cytunwyd i newid mandad y Banc i gynnwys enwau Dewi Jones, Alwyn Roberts, Huw Antur, Catrin Roberts, y Swyddog Ariannol a'r Clerc (unrhyw ddau i arwyddo - ond rhaid i un ohonynt fod yn Gyngorydd).
- vi. Cadarnhawyd cywirdeb y mantolenni a ffurflen Hacker Young i sylw'r Archwilydd.
- vii. Yn absenoldeb y swyddogion, cytunwyd i godi cyflogau 3% am y flwyddyn 2014-15. Nodwyd y dylai'r eitem hwn fod ar Agenda mis Mawrth bob blwyddyn. **Gweithredu: Swyddog Ariannol**

### 1294 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

- i. Pont dros nant Eglwysarn –cynhelir cyfarfod safle gyda Lis Haines ar ddiwedd yr wythnos.
- ii. Cytunwyd i dynnu sylw Adran y Priffyrdd at y ffos agored beryglus rhwng rhiw Deildre Uchaf a ffordd Wern Ddu a Hafod yr Haidd.

**1295 Partneriaeth Penllyn:** Adroddwyd fod y gwaith ar ran Parc Cenedlaethol Eryri mewn sefyllfa dderbyniol; disgwylir bocs gonestrwydd wrth faes parcio'r Hen Felin. Adroddwyd fod y gwaith wedi cychwyn yn yr Henblas. Mae Partneriaeth Penllyn hefyd wedi derbyn gwaith comisiwn i ymchwilio i ddarpariaeth gelfyddydol yn yr ardal ac i ddymuniadau at y dyfodol.

**1296 Trefniadau i groesawu Eisteddfod yr Urdd:** Diolchwyd i Arwel Lloyd Jones am wneud y trefniadau ar gyfer addurno'r stryd, a diolchwyd yn arbennig i Alwyn, Gwion a Gareth am eu cymorth parod. **Gweithredu: Clerc.**

Cytunodd Heledd Jones i holi Iorwerth Evans am y posibilrwydd o gael blodau wrth y Gilfach Goffa. **Gweithredu: Heledd Jones**

Cytunwyd i wneud cais am lanhau'r palmentydd cyn yr Eisteddfod. **Gweithredu: Alan Jones Evans**

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Dewi Jones

---

### 1297 Gohebiaeth:

#### 1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Cymeradwywyd Cais NP5/71/14D sef adeiladu storfa wartheg a gosod to dros storfa slyri ym Mlaen y Cwm, Cynllwyd
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais NP5/71/184B (garej a mynedfa i Tan y Ffordd)
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth fod cais am newidiadau i do Coed y Pry wedi ei dynnu'n ôl.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais NP5/70/114C cynllun trydan dŵr Llechwedd Ystrad
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais NP5/71/447 sef cynllun trydan dŵr Afon Lliw Dolhendre
- vi. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais NP5/71/443A sef cynllun trydan dŵr Llwyn Gwern

#### 2 Gwynedd:

- i. Nodwyd llythyr y Cyngorydd John Wyn Williams parthed Cynllun Datblygu lleol ar y Cyd gyda Môn.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth fod y cynllun grant *Diffyg yn y cyfrif claddu* yn dod i ben.

#### 3 Heddlu:

Derbyniwyd gwybodaeth e-bost am Ymgyrch Darwen - sef ymgyrch sy'n anelu lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol yn ymwneud â beicwyr modur ar ffyrdd Gogledd Cymru.

#### 4 Llywodraeth Cymru:

Derbyniwyd gwybodaeth nad oes bellach angen mwy nag un i arwyddo sieciau; derbyniwyd gwybodaeth am adroddiad ar drethi ail gartrefi.

#### 5 Un Llais Cymru:

a. Derbyniwyd gwybodaeth am y cyfarfod nesaf ar 19/5/14 yn Neuadd Dinas Mawddwy.

b. Derbyniwyd gwybodaeth am Arolwg o waith Llywodraeth Cymru ar reoli adnoddau naturiol.

c. Cytunwyd i'r Clerc fynychu hyfforddiant i Glercod 15/5/14 yn Llandudno (£59+ TAW a chostau teithio) – i'w rannu gyda Chyngor Tref Y Bala.

#### 6 Erail:

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Dewi Jones

---

- i. Derbyniwyd gwahoddiad i'r Plas yng Nglan Llyn (3/5/14)
- ii Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad y Cyngor oddi wrth Bwyllgor Apêl yr Urdd.
- iii Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan yr Adran Bentref yn diolch am gyfraniad y Cyngor.

**1298 Gwefan** - Ystyriwyd awgrymiadau ar yr hyn i'w gynnwys ar wefan y Cyngor (canllaw Un Llais Cymru):

*Cyffredinol (Lefel sylfaenol):*

- i. Gwybodaeth am gysylltu gyda'r Clerc - ffôn ac e-bost
- ii. Cyflwyniad i'r dref a'r gymuned
- iii. Ffurflen ymholiad cyffredinol fel bo'r gymuned leol yn gallu gwneud ymholiad
- iv. Cysylltiadau defnyddiol i wefannau neu rifau ffôn defnyddiol ar gyfer gwasanaethau brys a lleol
- v. Gwybodaeth gymunedol gyffredinol - meddygol, addysgiadol, gwirfoddol, crefyddol a busnes
- vi. Ymwrthodiad gwefan (disclaimer)
- vii. OPSIWN: tudalen busnesau lleol - i gynhyrchu incwm i gynnal y wefan

**Penodol:**

- i. Cysylltu gyda Chynghorwyr
- ii. Agenda a Chofnodion prif gyfarfodydd
- iii. Gwybodaeth Cynllunio
- iv. Adroddiadau a chyfrifon blynyddol
- v. Cylchlythyron
- vi. Dogfennau strategol, gan gynnwys ffurflen gais am gymorth ariannol
- vii. Cysylltiadau gwe i lefelau eraill o lywodraethu
- viii. Manylion Rhyddid Gwybodaeth

*Gellir hefyd rhoi cynnwys ar lefel uwch e.e. blog, pleidleisio ar lein, tudalennau ar gyfer Cynghorwyr i'w darllen yn unig, y gallu i amrywio maint ffont, porwr y wefan, map i'r wefan, holiaduron ar-lein*

Cytunwyd fod angen i'r Clercod allu uwchraddio'r Wefan. Mynegwyd dymuniad i weld y Wefan cyn iddi gael ei lansio.

*Amser gorffen 9.15pm*